

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc
ac Addysg**

**Children, Young People
and Education Committee**

Lynne Neagle AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

22 Ebrill 2022

Gwasanaethau Anhwylderau Bwyta yng Nghymru

Annwyl Lynne,

Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith ar 31 Mawrth. Fel rhan o'r drafodaeth hon, cytunwyd i ysgrifennu atoch i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau anhwylderau bwyta yng Nghymru.

Gwnaethom nodi'r adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan Beat, sef yr "[Adolygiad gwasanaeth anhwylder bwyta yng Nghymru - 3 blynedd yn ddiweddarach](#)". Nododd Beat rai argymhellion clir i wella gwasanaethau a sicrhau bod y gefnogaeth yn fwy cyfartal ledled Cymru, gan gynnwys yr angen am fodel gwasanaeth cenedlaethol newydd gydag amserlenni clir a ffocws cryfach ar ymyrraeth gynnar.

Fel y gwyddoch, roedd yr adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud ers adolygiad y Gwasanaeth Anhwylder Bwyta dair blynedd yn ôl. Fodd bynnag, nodwyd hefyd fod y cynnydd a wnaed yn "hynod anghyson" a bod annhegwch o hyd o ran darparu gwasanaethau ledled Cymru. Nodwyd nifer o ffactorau a allai fod wedi effeithio ar gynnydd, yn amrywio o'r amser a gymerodd i'r Llywodraeth ymateb i'r adolygiad cychwynnol, i faterion ehangach o ran ariannu ac adnoddau, ac, wrth gwrs, y pandemig. Wrth ymateb i gwestiwn am y mater hwn yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Ionawr 2022, nodwn eich bod wedi ymrwymo i ddefnyddio'r adroddiad i lywio eich gwaith yn y dyfodol. Byddai'n dda gennym gael gwybod eich ymateb i'r argymhellion hyn, a sut yr ydych yn ceisio mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adroddiad.

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Yn y Cyfarfod Llawn, gwnaethoch ddweud hefyd fod yr arweinydd cenedlaethol wedi gadael y swydd a'ch bod yn "edrych ar fodel newydd" i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu cyflawni'n genedlaethol. Mae adroddiad Beat yn sôn am ba mor bwysig yw cael Arweinydd Cenedlaethol. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am eich syniadau ynghylch y model newydd hwn, gan gynnwys sut y byddai'n cael ei arwain, a phryd y mae'n debygol o gael ei roi ar waith?

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Gwener 27 Mai 2022 fan bellaf.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS,

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.